# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Medi 2016

Amser: 09.01 - 10.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3726

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Suzy Davies AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Rosemary Fox, Llywodraeth Cymru<br>Irfon Rees, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jessica England (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o drafodion y cyfarfod (PDF 556KB) Gweld fel HTML (144KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Roedd Suzy Davies yn bresennol lle Janet Finch-Saunders.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-705 Annog Pwyllgorau Cynllunio i Sicrhau bod Penderfyniadau ar Faterion Cynllunio yn Rhoi sylw Dyledus i'r Effaith ar Grwpiau Ymunedol a Sefydliadau Gwirfoddol neu i'r Posibilrwydd y Bydd y Grwpiau a'r Sefydliadau hyn yn Cau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu'n ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am eglurhad ynglŷn â sut mae'r gofyniad ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8 Ionawr 2016) yn gweithio'n ymarferol a'r dylanwad y mae'n ei gael, sef bod rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried sylwedd sylwadau lleol, gan gynnwys unrhyw sylwadau a wnaed gan grwpiau cymunedol lleol.

### 2.2 P-05-715 A Gwahardd Cynhyrchu, Gwerthu a Defnyddio Maglau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i anfon yr ohebiaeth a gafwyd hyd yn hyn at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a gofyn am gael ein hysbysu am ganlyniadau'r trafodaethau sy'n cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru cyn penderfynu a ddylid gweithredu ymhellach yn ddiweddarach.

### 2.3 P-05- 696 Y Trên Rhithiol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y deisebwyr yn eu llongyfarch ar ganlyniad llwyddiannus eu hymgyrch ac i gau'r ddeiseb.

### 2.4 P-05-692 Adeiladu Cofeb Mamieithoedd Rhyngwladol ym Mae Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am farn y deisebydd cyn penderfynu ar y ffordd orau i weithredu ar y ddeiseb.

# 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 3.1 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.2 ar yr agenda.

## 3.2 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-04-399 Arferion Lladd Anifeiliaid, a chytunwyd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am gael ein hysbysu am ganfyddiadau adroddiad y grŵp diwydiant cyn ystyried y camau gweithredu nesaf gyda'r ddwy ddeiseb.

## 3.3 P-04-648 Ceisiadau Cynllunio Nwy ac Olew Anghonfensiynol.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Pwyllgor a chytunwyd i aros am farn y deisebydd cyn penderfynu ar y ffordd orau i weithredu ar y ddeiseb.

## 3.4 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i anfon sylwadau'r deisebwyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a gofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ar y cynigion ar gyfer yr arwyddion newydd.

## 3.5 P-04-663 Bwyd yn Ysbytai Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunwyd i ofyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ystyried y ddeiseb fel rhan o'i ymchwiliad arfaethedig i arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion maes o law.

# 4 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (CA125)

Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan y Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda:

- rhagor o wybodaeth am ganran y canlyniadau cadarnhaol ffug a ddychwelwyd gan y prawf gwaed CA125;
- cost yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth o ganser yr ofari a drefnwyd gan Felindre ym mis Mawrth 2016: a
- rhagor o wybodaeth am y gost o weinyddu prawf CA125 unigol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 6 Trafod tystiolaeth lafar o dan eitem 4 ar yr agenda.

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth yr oedd wedi'i chlywed gan y Gweinidog a chan y deisebydd yn y cyfarfod blaenorol, a chytunwyd i ysgrifennu at nifer o elusennau canser i ofyn am eu barn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb cyn ystyried y camau nesaf.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o fanylion am yr amserlen ar gyfer cwblhau adolygiad y meddygon teulu o'r achosion o ganser yr ofari y bu diagnosis ohonynt yn ystod 2015.